Saesneg isod/ English below

CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 14eg o Orffennaf 2025 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Miriam Webb, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Dylan Jarman, Eleri Puw, a Huw T Jones (Clerc).

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans.
   Roedd ymddiheuriad i law gan Cyng Beth Lawton, Cyngor Gwynedd, a danfonwyd ein cofion cynhesaf ati. Roedd wedi nodi y byddai yn helpu gyda unrhyw beth y gallai helpu.
   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion ar yr agenda.
2. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed o Fehefin 2025 a**r gynnig Cyng.Miriam Webb a'i eilio gan Cyng Emrys Thompson.
3. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

- Nodwyd ymateb i faterion ers y cyfarfod diwethaf.
- Nodwyd e-bost gan Cyng Emrys Thompson yn dwyn sylw i gyflwr Pont Tynyfach yn Llanfihangel y Pennant. Roedd angen dwyn sylw CADW i hyn, ac hefyd Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.

b) **Safle treftadaeth** / **Celf Cyhoeddus** - nodwyd y gohebiaeth gan Bet Huws yn dweud nad oedd yr un o'r 3 safle a ddewisiwyd ar gyfer y wagen lechi yn addas. Nodwyd siom am hyn. Yn achos y safle ar y ffordd mewn/allan o Abergynolwyn i gyfeiriad Tywyn, roedd angen ysgrifennu eto, gan fod cynlluniau am faes parcio wedi bod yno yn y gorffennol. Byddai Emrys yn cael y wybodaeth. Nodwyd dau le arall posib ger y Ganolfan.

**c) Ansawdd dwr/ carthffosiaeth - Abergynolwyn** - darllenwyd ateb diweddaraf Dwr Cymru dyddiedig 11eg Mehefin, a oedd wedi ei ddosbarthu i bawb. Nodwyd fod gwelliant gyda blas y dwr, a byddai rhaid adolygu y sefyllfa yn niwedd Awst.

**d) Arwyddion y cae chwarae –** diolchwyd i Cyng Emrys Thompson am osod yr arwydd 'DIM BEICIAU; NO BIKES'. Addawodd Cyng Elwyn Evans gael arwydd 'DIM CWN AR Y CAE CHWARAE; NO DOGS IN PLAYING FIELD' erbyn tro nesaf gan ddilyn hyn i fynny.

**e) Archwiliad RoSPA -** roedd hwn wedi ei gylchredeg i bob Cynghorydd. Ar y cyfan, roedd pawb yn weddol hapus gyda'r adroddiad.

**f) Cronfa 'Gwynedd Ni' a'r cyfle am grant o hyd at £5000 o fewn ffiniau y Cyngor Cymuned.** – diolchwyd yn fawr iawn i'r Cyng Eleri Puw am ei gwaith gyda hyn. Roedd amcangyfrif i law gan Gwmni Dylan Jarman a'i Feibion am gyfanswm o £5000. Aethpwyd drwy'r ffigurau yn fanwl, a phenderfynwyd symud ymlaen. Byddai'r Clerc yn cwbwlhau man faterion ar y ffurflen, ac yn ei danfon oddiamgylch pawb i gael cymeradwyaeth. (cafwyd datganiad diddordeb gan y

Cyng Dylan Jarman, a gadawodd yr ystafell drwy gydol y cyfnod y bu hyn dan drafodaeth.)

4. **Materion Cynllunio**

   Nid oedd unrhyw faterion cynllunio i law.

5. **Materion Cyllid.**

a) **Cyfrifon 2024-25** - cadarnhawyd fod yr holl ddeunydd angenrheidiol wedi ei ddanfon ymlaen ir Archwilydd Allanol.

c) **Anfonebau**; - ar gynnig Cyng Gwynedd Roberts a'i eilio gan Cyng Miriam Webb, cytunwyd i dalu y canlynol;

   - Cydnabyddiaeth chwarter cyntaf y Clerc £400.01 a HMRC £100
   - Archwilio Cymru - ffioedd archwilio 23-24 - £820
   - Anfoneb RoSPA – archwiliad cae chwarae Mehefin £100.80
   - Anfoneb RA Davies am dorri gwair mynwent Llanfihangel y Pennant a'r Fedw (mis Mehefin) £1080.

c) **Ceisiadau am arian** – ar gynnig Cyng Miriam Webb a'i eilio gan Cyng Emrys Thompson, penderfynwyd peidio cyfrannu i'r canlynol;

- Ambiwlans Awyr Cymru
- Cerebral Palsy Cymru

6. **Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

Roedd ymddiheuriad i law gan Cyng Beth Lawton

**7.Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Adroddwyd am Bwyllgor Un Llais Cymru Meirionnydd ar Nos Fercher 16eg o Orffennaf. Hefyd cyfeiriodd at gyfarfod o Weithdy Thematig Dehongli Llechi Cymru a gyfarfu yn Caernarfon yn Rheilffordd Eryri, Caernarfon ar y 27ain o Fehefin, a'r cyflwyniadau diddorol. .

8. **Gohebiaeth.**

a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** - nid oedd claddedigaethau yn y mis diwethaf. Nodwyd fod llechi wedi mynd o do yr Eglwys, ac er nad oedd hwn yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned, roedd teimlad y dylid pasio hyn ymlaen i'r Eglwys yng Nghymru

b) **Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru,** roedd **y** Clerc wedi dosbarthu rhai Gorffennaf, Awst a Medi.

c) **Roedd gohebiaeth gan Mick Hartill ynglyn a'r wefan,** ac roedd y Clerc wedi ymateb. Gwelwyd fod rhoi cyhoeddusrwydd am weithgarwch y Cyngor Cymuned ar yr hysbysfwrdd a'r wefan yn ddigonol. Er mwyn gwell eglurder i'r

dyfodol, byddai'r Clerc yn rhoi 'Saesneg isod;English below' ar y cofnodion yn y dyfodol, gan fod y Clerc yn cyfieithu y cyfan bob tro er defnydd y cyhoedd. Addawodd Cyng Steve Lewis basio'r neges ymlaen i Mick Hartill.

9. **Unrhyw fater arall**

- Roedd angen ymholi paham fod ffordd Staer Dywyll ar gau mor hir.
- Diolchodd Cyng Miriam Webb i bawb am eu cymorth/cyfraniadau i'r tombola ddiwrnod y Carnifal yn niwedd Gorffennaf.
- Adroddwyd am y diweddaraf gyda'r ymgyrch i gadw gwasanaethau Ysbyty Brongais. Byddai'r Clerc yn dosbarthu y gohebiaeth diweddaraf.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS LUN 8fed o Fedi 2025 , 7.00y.h.**

**……………………………………………………………………………………………………………**

Minutes of the Council's Annual Meeting held on Monday 14th July 2025 at 7.00pm in the Centre, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Elwyn Evans, Miriam Webb, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Dylan Jarman, Eleri Puw, and Huw T Jones (Clerk).

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Elwyn Evans.

An apology was received from Cllr Beth Lawton, Gwynedd Council, and we send her our warmest regards.She had indicated that he would help with anything he could.

There were no declarations of interest on issues on the agenda.

2. The minutes of the meeting held on the 9th of June 2025 were confirmed on the proposal of Cllr. Miriam Webb and seconded by Cllr Emrys Thompson.

3. Matters arise

a) Highways/pathways issues.

• Responses to issues since the last meeting were noted.

• An email from Cllr Emrys Thompson drawing attention to the condition of Pont Tynyfach in Llanfihangel y Pennant was noted. It was necessary to bring CADW's attention to this, and also the Highways Department of Gwynedd Council.

b) Heritage site / Public Art - the correspondence from Bet Huws was noted saying that none of the 3 sites chosen for the slate wagon were suitable. Disappointment was noted about this. In the

case of the site on the road in/out of Abergynolwyn towards Tywyn, it was necessary to write again, as there had been plans for a car park there in the past. Emrys would get the information. Two other possible places near the Center were identified.

c) Quality of water/sewerage - Abergynolwyn - the latest answer from Dwr Cymru dated 11th June, which had been distributed to everyone, was read. It was noted that there was an improvement with the taste of the water, and the situation would have to be reviewed at the end of August.

d) Playground signs - Cllr Emrys Thompson was thanked for placing the sign 'DIM BICYCLES; NO BIKES'. Cllr Elwyn Evans promised to get a sign 'NO DOGS ON THE PLAYING FIELD; NO DOGS IN PLAYING FIELD' by next time following this up.

e) RoSPA Audit - this had been circulated to all Councillors. Overall, everyone was fairly happy with the report.

f) The 'Gwynedd Ni' Fund and the opportunity for a grant of up to £5000 within the boundaries of the Community Council. - Cllr Eleri Puw was thanked very much for her work with this. An estimate was received from Dylan Jarman and his Sons Company for a total of £5000. The figures were gone through in detail, and it was decided to move on. The Clerk would complete the issues on the form, and send it around to everyone for approval. (a declaration of interest was received from Cllr Dylan Jarman, who left the room throughout the period this was under discussion.)

4. Planning Matters

There were no planning issues at hand.

5. Finance Matters.

a) Accounts 2024-25 - it was confirmed that all the necessary material had been forwarded to the External Auditor.

c) Invoices; - on the proposal of Cllr Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Miriam Webb, it was agreed to pay the following;

• Clerk's first quarter remuneration £400.01 and HMRC £100

• Audit Wales - audit fees 23-24 - £820

• RoSPA invoice – June playground inspection £100.80

• RA Davies' invoice for cutting the grass of Llanfihangel y Pennant a'r Medw cemetery (June) £1080.

c) Requests for money - on the proposal of Cllr Miriam Webb and seconded by Cllr Emrys Thompson, it was decided not to contribute to the following;

• Wales Air Ambulance

• Cerebral Palsy Wales

6. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

An apology was received from Cllr Beth Lawton

7. Report of Cllr. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

The Meirionnydd One Voice Cymru Committee was reported on Wednesday 16th of July. He also referred to a meeting of the Welsh Slate Interpretation Thematic Workshop which met in Caernarfon at the Eryri Railway, Caernarfon on the 27th of June, and the interesting presentations.

8. Correspondence.

a) Matters of Llanfihangel y Pennant cemetery - there were no burials in the last month. It was noted that slates had gone from the roof of the Church, and although this was not the responsibility of the Community Council, there was a feeling that this should be passed on to the Church in Wales

b) Un Llais Cymru training sessions were identified, the Clerk had distributed the July, August and September ones.

c) There was correspondence from Mick Hartill regarding the website, and the Clerk had responded. It was seen that publicizing the Community Council's activity on the notice board and the website was sufficient. For better clarity for the future, the Clerk would put 'Saesneg isod;English below' on the minutes in the future, as the Clerk translates everything every time for the public's use. Cllr Steve Lewis promised to pass the message on to Mick Hartill.

9. Any other matters

- It was necessary to inquire why the Staer Dywyll road was closed for so long.
- Cllr Miriam Webb thanked everyone for their help/contributions to the tombola on Carnival day at the end of July.
- Reported on the latest with the campaign to keep Ysbyty Brongais services. The Clerk would distribute the latest correspondence.

DATE OF NEXT MEETING;   Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN MONDAY 8th September 2025, 7.00 p.m.